**CWESTIYNAU AR GYFER Y CYD-GYSYLLTWYR IAITH A'R CYDLYNWYR IAITH UWCHRADD**

Bydd yr ymchwiliad yn:

i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.
iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae Canllawiau Gweithredu'r Polisi Iaith yn nodi:- "Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nòd y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol." Mae 5 carfan o blant o fewn gweithrediad y polisi a'r nod ydi cael pob plentyn yng ngharfan A - disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1. **Beth ydi'r darlun mae'r data yr ydych yn gasglu yn gyfleu or dalgylch?**
    a. **A wnewch anfon yr wybodaeth dros y 3 blynedd diwethaf atom os gwelwch yn dda?**

2. **Eglurwch pa fath o drafodaeth a geir gyda'r ysgolion ynglyn â'r Polisi Iaith?**
    a. **I ba raddau ydych yn herio'r ysgolion?**

3. **Sut ydych yn sicrhau dilyniant priodol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3?**

4. **Beth yw'r darlun o'r carfannau ieithyddol sy'n trosglwyddo i'r Uwchradd?**

5. **Pa arweiniad proffesiynol ydych yn ei roi i'r dalgylch ynglyn â rhannu arferion da?**

6. **Sut ydych yn adrodd ar arfarnu llwyddiant y Polisi Iaith, pa bryd ac i le?**

7. **Eglurwch sut ydych yn tracio disgyblion unigol yn ôl carfannau iaith yn ystod eich ymweliad â'r Ysgol Uwchradd – a'i wyneb yn wyneb gyda'r disgybl?**